Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Tan Y Marian**

**Morfa'r Garreg**
**Pwllheli**
**LL53 5BB**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

## 3 Gorffennaf 2024.

03/07/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Tan Y Marian

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd |
| Lleoedd cofrestredig | 9 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 8 Awst 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl yng nghartref Tan Y Marian. Mae'r bobl yn cael budd o gael gofal gan grŵp cyson o staff sy'n ymwybodol iawn o'u hanghenion. Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon ar eu gofal ac yn teimlo eu bod ymhlith teulu. Mae'r cartref i'w weld yn lân ac yn daclus ac mae'r bobl yn cael personoli eu hystafelloedd eu hunain i raddau uchel. Mae ôl traul ar y décor mewn rhai o'r ardaloedd cymunedol, ond cawsom wybod bod cynlluniau ar waith i ddiweddaru ac adnewyddu'r cartref. Caiff meddyginiaethau eu rheoli mewn modd boddhaol, a gall y bobl gael gofal iechyd mewn modd amserol sy'n eu galluogi i gadw mor iach â phosibl. Mae'r rheolwr yn weladwy a dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ei fod yn gefnogol ac yn hawdd mynd ato. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn llunio adroddiadau o ansawdd yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae angen cymryd camau i sicrhau gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth, sydd ar gael mewn fformat priodol i'w hanghenion.

## Llesiant

Caiff y bobl eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl a chânt wneud dewisiadau dyddiol. Mae'r bobl yn mynychu gwasanaeth gofal dydd ac yn mynd allan gydag aelodau o'u teuluoedd. Caiff y bobl eu hannog i gwblhau gweithgareddau dyddiol fel golchi eu dillad, a gwelsom fod unigolyn wedi bod wrthi'n gosod blodau mewn potiau yn ardal yr iard. Mae gan y bobl ddewis mewn perthynas â'u prydau bwyd sy'n cael eu coginio ar y safle. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl yn y lolfa ac yn siarad â'i gilydd ac aelodau o'r staff gofal. Dywedodd y bobl a'r staff gofal eu bod, "*like family".* Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus yn byw yn y cartref. Dywedodd perthynas un person wrthym, "*I can't praise the home enough."* Mae'r bobl yn fodlon â'u hystafelloedd sy'n fawr ac yn agored, gyda dewis o ddécor eu hunain ynddynt. Gall y rhan fwyaf o'r staff siarad Cymraeg ac maent yn rhoi 'cynnig rhagweithiol' o'r iaith i'r bobl. Mae'r cynlluniau personol yn cydnabod dewis iaith gyntaf y bobl ac mae cofnod yn cael ei gadw o ddewisiadau, arferion, a hanes personol yr unigolyn. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r protocolau diogelu lleol i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae eiriolwr ar gael i'r bobl os bydd ei angen arnynt. Nid oes canllaw hawdd ei ddarllen sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ar hyn o bryd, ac mae angen tynnu sylw at hyn er mwyn sicrhau bod gan y bobl wybodaeth i wneud penderfyniad ynghylch byw yn y gwasanaeth.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ôl eu cynllun gofal. Dywedodd person wrthym ei fod yn "*happy and having a good day.*" Gwelsom fod y staff gofal yn fedrus wrth gefnogi'r bobl a oedd yn dangos arwyddion o orbryder drwy eu hymddygiadau. Mae'r staff gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd barchus a chyfeillgar, ac yn ymwybodol iawn o anghenion y bobl. Caiff cynlluniau personol y bobl eu hailasesu yn chwarterol ac yn flynyddol, a chânt eu diweddaru wrth i gyflyrau'r bobl newid.   Mae grŵp o staff gofal cyson sy'n darparu eu gofal yn barhaus i'r bobl.

Caiff y bobl eu hasesu cyn cael eu derbyn gan y cartref er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth ddiwallu eu hanghenion. Mae'r staff gofal yn cwrdd â phobl yn eu cartrefi eu hunain cyn iddynt gael eu derbyn. Rhoddir amser i'r bobl ystyried a yw'r gwasanaeth yn briodol ar gyfer eu hanghenion. Caiff ymweliadau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol eu dogfennu yn ogystal ag unrhyw gyfarwyddiadau a chanlyniadau. Gall y bobl gael gafael ar gyngor gofal iechyd mewn modd amserol er mwyn cynnal eu hiechyd.  Caiff cwympiadau a damweiniau eu cofnodi'n briodol, a chaiff asesiadau risg eu rhoi ar waith er mwyn ceisio lliniaru risgiau pellach. Mae gwybodaeth sensitif yn cael ei chadw mewn swyddfa dan glo er mwyn sicrhau cyfrinachedd.

Gwelsom fod trefniadau da ar waith yn y cartref ar gyfer rhoi a storio meddyginiaeth. Nid oedd unrhyw fylchau o ran llofnodion ar siartiau meddyginiaeth y bobl. Caiff meddyginiaeth ei storio'n briodol a cheir gwared ar feddyginiaeth sydd wedi'i defnyddio yn ddiogel. Caiff llwybr archwilio effeithiol ei gynnal mewn perthynas â meddyginiaethau sy'n cyrraedd ac yn gadael y cartref. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar roi meddyginiaethau ac yn ymgymryd â phrofion cymhwysedd. Mae'r fferyllfa leol yn rhoi cymorth i'r cartref ac yn ymdrechu i ddosbarthu presgripsiynau mewn modd amserol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl y gwnaethom siarad â nhw yn hapus â'u hystafelloedd ac mae croeso iddynt eu personoli. Gwelsom fod un unigolyn wedi cael ei gymryd allan i siopa er mwyn dewis papur wal newydd ar gyfer ei ystafell. Mae'r cartref yn ymddangos yn lân ac yn daclus fel yr ardaloedd yn yr awyr agored sydd â llefydd i'r bobl eistedd pan fydd y tywydd yn braf. Mae'r gwasanaeth wedi nodi bod angen gwneud gwaith cynnal a chadw ar ardaloedd cymunedol, ac mae cynlluniau ar waith i ddiweddaru ac adnewyddu'r ardaloedd hyn. Mae'r cyfleusterau yn y cartref yn foddhaol ac yn cydymffurfio â'r rheoliadau.

Mae'r cyfarpar sydd ei angen ar gyfer eu gofal ar gael i'r bobl. Caiff yr asesiadau a'r cofnodion iechyd a diogelwch ar gyfer y cartref eu hasesu a'u diweddaru'n rheolaidd er mwyn sicrhau diogelwch y bobl. Caiff gwiriadau cyfleustodau fel dŵr, nwy a thrydan eu hadolygu'n aml, a darparwyd tystysgrifau diogelwch i ni pan ofynnwyd amdanynt. Cynhelir ymarferion tân yn rheolaidd a chânt eu cofnodi. Mae yswiriant indemniad y gwasanaeth yn gyfredol. Mae'r arferion hylendid a rheoli heintiau yn dda, ac mae cyfarpar diogelu personol ar gael i'r staff.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd ac yn cyflwyno adroddiadau ar ansawdd yn unol â'r rheoliadau. Dywedodd y rheolwr wrthym y cânt eu cefnogi gan yr Unigolyn Cyfrifol a'u bod yn cael hyfforddiant fel sy'n ofynnol. Mae polisïau craidd ar waith yn y cartref. Byddai olion cliriach o archwilio polisïau a dogfennau allweddol o fudd i'r gwasanaeth ac Arolygiaeth Gofal Cymru, a byddai angen cynnwys dyddiadau adolygu ynddynt. Mae dogfen y Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r gwasanaeth a chafodd ei adolygu ddiwethaf yn 2023. Mae angen gwneud gwaith i sicrhau y gall y bobl gael gafael ar wybodaeth am y gwasanaeth, sydd ar gael mewn fformat sy'n briodol i'w hanghenion. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Gwelsom fod arferion cyflogi da ar waith a chynhelir gwiriadau er mwyn sicrhau bod y staff gofal yn addas i weithio gydag oedolion agored i niwed. Gwelsom yng nghofnodion y staff gofal a chawsom wybod ganddynt eu bod yn cael hyfforddiant ac yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd i'w cefnogi yn eu rôl. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw bod y rheolwr yn weladwy ac yn cefnogi eu hanghenion. Mae'r staff gofal yn hapus yn eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn, *“part of a family.”* Mae'r staff gofal yn darparu gofal 24 awr yn unol â'r rota gwaith.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd cama

u i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 19 | Nid yw'r Datganiad o Ddiben a'r Canllaw i Ddefnyddwyr y Gwasanaeth wedi cael eu diweddaru a'u hadolygu'n ddigonol er mwyn bodloni gofynion y rheoliadau. | Heb Gyflawni |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/09/2024